

## Gwers 6: Cestyll

### Nod y Wers: Beth oedd y Drefn Ffiwdal ac sut ddefnyddwyd i reoli Cymru a Lloegr?

Trefn ysgol - beth yw'r drefn rheoli? Cysylltwch y rhifau gyda'r wybodaeth gan wneud arwydd

1		Pennaeth Adran
2		Penaethiaid Cynorthwyol
3		Prifathrawes
4		Athro/Athrawes
5		Dirprwy Brifathro

Trefn Prydain - beth yw'r drefn rheoli? Cysylltwch y rhifau gyda'r wybodaeth gan wneud arwydd

1		Y Senedd
2		Prif Weinidogion Cymru a'r Alban
3		Y Frenhines
4		Prif Weinidog
5		Cabinet Y Llywodraeth

Trafodaeth

Pam ydych chi wedi dod at y penderfyniadau yma?

Unwaith daeth y Normaniaid i goncro Lloegr yn 1066, roedd rhaid iddynt benderfynu ar sut i reoli'r wlad. Arweinydd y Normaniaid oedd Wiliam ac roedd ganddo enw drwg oherwydd y ffordd roedd yn rheoli Normandi yng ngogledd Ffrainc. Roedd pobl yn ei ofni. Fel brenin newydd dros Lloegr, roedd yn perchen yr holl dir - ond roedd ganddo dasg anodd, gan ei fod yn frenin ar wlad lle nad oedd pawb yn ei gefnogi.

Tasg: Dychmygwch eich bod chi'n Wiliam. Sut y fuasech chi wedi mynd ati i reoli'r wlad? Pam? e.e **Mi fuaswn i wedi rhoi pres i bobl oherwydd** dyma un ffordd o gadw nhw'n hapus

Mi fuaswn i wedi:

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Daeth Wiliam â 200 o farwniaid (barons) Normanaidd gydag ef i goncro Lloegr ac roedd angen iddo ddefnyddio'r rhain yn ofalus. Penderfynodd mai un o'r ffyrdd gorau o reoli'r wlad oedd rhannu'r tir. Y term am y drefn hon o rannu'r tir oedd y Drefn Ffiwdal. Penderfynodd sefydlu system yng nghymdeithas Lloegr - un bydd yn gwobrwyo am waith caled, ond hefyd yn sicrhau cefnogaeth iddo. Yn y pendraw defnyddwyd yr un drefn i reoli Cymru unwaith i'r Normaniaid concro'r wlad.

Tasg: Sgiliau Meddwl: Tabl gosod. Ysgrifennwch y wybodaeth yn y drefn cywir gyda'r pwysicaf ar y brig a'r lleiaf bwysig ar waelod y tabl.

- Ym mha drefn ydych chi'n credu mae angen i chi osod y teitlau canlynol yn y golofn 'Y Drefn Ffiwdal' (ar y chwith)? - Marchogion, Y Brenin, Y Werin, Y Barwniaid
- Ym mha drefn ydych chi'n credu mae angen i chi osod y frawddegau isod yn y golofn 'Disgrifiad sy'n cysylltu gyda'r drefn' (eto ar y chwith)?
  1. Y Marchogion yn rhoi tir i'r werin bobl ac nhw yn gweithio ar y tir i'r Marchogion
  2. Y Brenin yn rhoi tir i'r Barwniaid
  3. Y Marchogion yn tyngu llw i'r Barwniaid gan addo brwydro iddyn nhw
  4. Y Barwniaid yn tyngu llw i'r Brenin gan addo i'w genfogi - nhw'n rhoi tir i'r Marchogion
- Hunanasesu: Os mae'r wybodaeth yn gywir rhowch tic yn y colofnau ar y dde. Ysgrifennwch y wybodaeth cywir os rydych chi wedi gwneud camgymeriad.

Y Drefn Ffiwdal yn eich barn chi	Disgrifiad sy'n cysylltu gyda'r drefn yn eich barn chi		Y Drefn Ffiwdal Cywir neu Anghywir?	Disgrifiad o'r drefn Cywir neu Anghywir?
		Pwysicaf 1		
		2		
		3		
		4 Lleiaf bwysig		

Trafodaeth

Eglurwch pam eich bod chi wedi dod at y penderfyniad yma.